# GORCHESTWAITH BEIRDD CYMRU,

Yr Oes bresennol,

## Yn Esteddfod y BALA.

GYDAG

Awdlau ar Ryddid, a roed yno yn Destun, I ganu arno. gan Gymdeithas y Gwyneddigion,

## Yn LLUNDAIN.

At yr hyn, yr ychwanegwyd rhai dewis Ganiadau, yn Gywyddau, Cerddi, a Charolau newyddion, gan yr unrhyw amrywiol Feirdd, er diddanwch i bob carwr Barddoniaeth, ac er Ymgeledd, cynhaliaeth, ac adfywhad, yr hen iaith Gymraeg.

A GYHOEDDWYD

Wrth ddymuniad Cymdeithas y Gwyneddigion, yn y Flwyddyn, 1790.

London-ll Gwyneddigion Society

ARGRAPHWYD gan J. HUGHES, Yng Wrecsham

(PRIS 6d. neu che Chweiniog.)

15
MAR
16

## AR FARWOLAETH Sr. WATCIN

### Y TESTUN CYNTAF.

OCH aeth co' alaeth ac wylo,—am wr,
A chymmeriad iddo,
Breuddwyd yw gennym briddo,
Enwog o radd, yn y gro.
Mae marwnad ynewlad Meirion, am Farchog,
Fu erchwyn Bon'ddigion;
Oer ebwch i RUABON:
Cofthau byth, am eu cyff bon,
Am Watcin mwya' Utgorn
Oer yw llais cerdd, hirllaes corn } Deuair hirion,
Mae'n gobaith haelwaith hylwydd, ei ſelio,
Ynghaerſelem newydd:
Mai da ydyw, mwy dedwydd,
Ai hollawl le'n well ei lwydd.

JONATHAN HUGHES.

Marwolaeth alaeth wylo,—a cholled
Erchyllaidd iw theimlo
Cur or hanes, ceir heno,
Rai 'n llwyr brudd, yn llawer bro,
Am Syr Watcin blin yw bloedd—Llen a llyg
Llawn yw llef niferoedd:
Marw'r gwr mwya ar goedd,
Twr ſeirian tair o Siroedd.
Gwae'r Plwy, o gwae mwy, gwae mil.—drwy Wynedd
O! druenus Heppik.

Sail nodded iſelion eiddil,
Eithr eu gwaith, aeth ar gil.
Bellach amgenach gynnydd—byw undeb
A Bendith Duw beunydd:
A fyddo i'r Etifeddydd,
Yn Wynnſtay, bob nos a Dydd,
THOS. EDWARDS, alias NANT.

Ar'r un Teſtun, &c.

Och! alaeth helaeth a hir,---a danwyd
Hyd wynedd wen Frodir:
Daearwyd od yw eirwir,
Watcin mewn daearin dir,
Gan gyſtudd, aml grudd ſy'n grych,
O fwrw un gwiw, Farwn gwych,
Sef Watcin oreu lin ryw
Oi beraiddryw i briddrych.
Trueiniaid gweiniaid a gwynant, —o'i ol
Alaeth hir a brofant;
Y gwelw werin galarant,
Fyn'd o'r byd, fwynder i bant.
Mae trymgwyn achwyn uchel,—gwynfannus
Gan Fonedd o'i ddymchwel,
A'i roi dan gwys ro dan gel
Mwyn roſyn mewn ar iſel.
Rhoes y nefol duwiol Dad,
I'w enaid bach newid byd,
Ymhob glynn a dyffryn dud,
Hwy na'r Dyn y glyn ei glod.
Blodeued ſafed ei * Sedd—man iachus
Mewn uchel anrhydedd:
A rhoed y prif Etifedd,

* Seat.

Arian

Arian i wan, yr un wedd.

DAFFYD THOS. alias,
DAF: ddu or Eryri.

Ar yr un Teſtun, &c.

Och! alaeth trwm och wylo,—och Wynedd
Och i ni'r och'neidio;
Marw Syr Watcin drablin dro,
Iawn feddiant y Nef iddo.
Mae'n drachwith mi wn i drichant,—di lwydd
O Deuluoedd methiant:
Ow bellach yn ddi balliant
Ar y Plwy y rhoir y Plant!
Marchog goludog o lin —a Theulu
Y Thelwal a Chyffin:
Mawr yw hawl ei fawl ar fin
Marw gwr Maer y Gwerin.
O Deulu'r hen Gadwaiad,----y tarddodd
At urddo'i ddiſgyniad:
Trwy Dwyſogion gloywon gwlad,
Anrhydedd yn eu rhediad.
Y gannaid euraid oerodd,—trwy Wynedd
Tra enwog tywynnodd:
Cyn deuddeg anfwyndeg fodd,
Och wael adwyth machludodd.
Nid Llyſoedd tiroedd na'r tyrrau,—cedyrn
Wna 'n cadw rhag Angau,
Ni eſtyn noeth gyfoeth gau,
Funudyn ar fain edau.
Yr enwog Farchog aur erchwyn,—a'i elw
Oedd filoedd yn' flwyddyn;
Ni chadwodd rhain na Chedwyn

Na

Sail nodded iſelion eiddil,
Eithr eu gwaith, aeth ar gil.
Bellach amgenach gynnydd—byw undeb
A Bendith Duw beunydd:
A fyddo i'r Etifeddydd,
Yn Wynnſtay, bob nos a Dydd,
THOS. EDWARDS, alias NANT.

Ar'r un Teſtun, &c.

Och! alaeth helaeth a hir,---a danwyd
Hyd wynedd wen Frodir:
Daearwyd od yw eirwir,
Watcin mewn daearin dir,
Gan gyſtudd, aml grudd ſy'n grych,
O fwrw un gwiw, Farwn gwych,
Sef Watcin oreu lin ryw
Oi beraiddryw i briddrych.
Trueiniaid gweiniaid a gwynant, —o'i ol
Alaeth hir a brofant;
Y gwelw werin galarant,
Fyn'd o'r byd, fwynder i bant.
Mae trymgwyn achwyn uchel,—gwynfannus
Gan Fonedd o'i ddymchwel,
A'i roi dan gwys ro dan gel
Mwyn roſyn mewn ar iſel.
Rhoes y nefol duwiol Dad,
I'w enaid bach newid byd,
Ymhob glynn a dyffryn dud,
Hwy na'r Dyn y glyn ei glod.
Blodeued ſafed ei * Sedd—man iachus * Seat.
Mewn uchel anrhydedd:
A rhoed y prif Etifedd,

Arian

BRITISH MUSEUM 15 66 MARY

Arian i wan, yr un wedd.

DAFFYD THOS. alias,
DAF: ddu or Eryri.

Ar yr un Teſtun, &c.

Och! alaeth trwm och wylo,—och Wynedd
Och i ni'r och'neidio;
Marw Syr Watcin drablin dro,
Iawn feddiant y Nef iddo.
Mae'n drachwith mi wn i drichant,—di lwydd
O Deuluoedd methiant:
Ow bellach yn ddi balliant
Ar y Plwy y rhoir y Plant!
Marchog goludog o lin —a Theulu
Y Thelwal a Chyffin:
Mawr yw hawl ei fawl ar fin
Marw gwr Maer y Gwerin.
O Deulu'r hen Gadwaiad,----y tarddodd
At urddo'i ddiſgyniad:
Trwy Dwyſogion gloywon gwlad,
Anrhydedd yn eu rhediad.
Y gannaid euraid oerodd,—trwy Wynedd
Tra enwog tywynnodd:
Cyn deuddeg anfwyndeg fodd,
Och wael adwyth machludodd.
Nid Llyſoedd tiroedd na'r tyriau,—cedyrn
Wna 'n cadw rhag Angau,
Ni eſtyn noeth gyfoeth gau,
Funudyn ar fain edau.
Yr enwog Farchog aur erchwyn,—a'i elw
Oedd filoedd yn' fwyddyn;
Ni chadwodd rhain na Chedwyn

Na

Na Wynnſtay einioes dyn.
Y gloyw Nudd gla newyddion—mwyn trugar
Mae n trigo mhlith meirwon :
Am ei 'm.dawiad briwiad bron,
Oer fu ebwch Rhywfabon.
Ond Watcin o lin loyw enaid,—di gas
Daw'n gyſur i'w ddeiliaid ;
Boed y Mab arab euraid
Anwyl doeth, yn ail 'iw Daid.
Un weithred egored o drugaredd,
Yw'r oreu ddewis ar yr awr ddiwedd,
A mwy dymunol, a mad amynedd,
Y tlawd crefyddol duwiol duedd,
Na golud Mammon gwaeledd—twyll irad
A byrr iawn yw rhediad, brau anrhydedd.
Gobeithio uno o Dduw ei Enaid,
Ac iddo dda aberth gweddi ddibaid,
Cu raſol ymorol Caerſelem euraid,
Lle hoffaidd lannerch, llu y ffyddloniaid,
Man mae'r Jeſu n caru'r cywiriaid,—fflwch
O fwyna degwch y Ne' fendigaid.

WALTER DAVIES, alias,
GWALLTER MECHAIN.

Ár yr un Teſtyn, &c.

Mawr Alaeth fu marwolaeth—yr ynad
Wr anwyl naturiaeth :
Seneddwr llon union aeth
Oedd hil Bonedd, hael bennaeth.
Syr Watcin Brigin ein bro,—y Marchog
O ! mor chwith ei briddo !
Croyw gwelwyd, cri ac wylo

Gwall

Gwall i fyrdd, ei golli fo.
Ar yr un Teſtyn, &c.

JOAN AP GWILIM, Cynwyd.

Syr Watcin riddin ireiddiol;—ydoedd
Odiaeth wr urddaſol;
Oi fawredd aeth yn farwol,
Dyna wir ni's daw yn ei ol.
I'w dy na'i deulu er dolef—weithian
Aeth hwn i'w hir gartref;
Had eiddil, awn rhaid addef
Ir ail wlad, ar ei ol ef.

JOAN AP RHOBERT, ger llaw'r Bala.

Yr ail Teſtyn; Llyn Tegid.

Dyfrlyn, fal dyffryn dwyffrwd, a fwrw
Dew furum a llifrwd:
'Mhob ardal cymmal cwmmwd,
Hyd wellt' gwair dywallt ei gwd.
Pyſgodlyn dyfnlyn aflonydd,—eigiau
'N ei ogof gromlechydd;
I'r Bala mwyn redfa rydd,
Erys derm ar yſtormydd.
Tru a Dyrnod trwy'r 'deirnion,—gan chwdu
A chodi 'n fawr Afon,
A gar llaw i Gaerlleon,
Hynt o hyd, tu hwnt i hon.

JON. HUGHES.

Llanw tew hygyrch ſy'n Llyn Tegid
Fal Mor ar oror yr hen * Ririd

* Ririd Flaidd, Lord of Penllyn, lived at Nauddau Gleiſion in the Com. of is Trewedryn, in the Year 1072.

A

Ar raian torlan taerlid, paid cynnwrf
Llwyra godwrf ei holl yrr a gydid.
Mae'r Llyn anoddyn yn awr, yn gymmyſg
O derfyſg tra dirfawr,
Uthr ddyfrlle dafnlle dyfnllawr,
Lle tonnog temheſtlog mawr.
Peradwys ardd lwys werdd lon,—yw'r Bala
Arab olwg dirion;
Pureiddiaf ddwfr peryddon.
Ai dyfrha, difyr yw hon. D Ddu or Eryri.

Yn gan'lynol.

Llanw mawr enwog llyn Meirionydd, hynod
Yr henwir trwy 'r Gwledydd:
Y tair llan tir llawenydd
Fwyna ſain ar ei fin ſydd.
Deng Milldir bwrir heb wad,—oi amgylch
Wiw ymgais trwy brofiad:
Mor i ni a mawr ei nad
Llyn o gynnwrf llawn * gwynia'd.
Medd awduron purion pwyll
Ni chymmyſg y pyſg heb pall
Daw 'r Afon drwy'r eigion rwyll
Dwr y llyn nid a i'r llall.

Gwallter Mechain.

Yn ganlynol, &c.

Llyn yn Meirionydd llawn a mawr enwog,
Llyn yn dair Milldir dweudir godidog,
Llyn rhwng dwy Eglwys hoywlwys ddihalog
Llyn Tegid wawr loyw mal enw Molwynog,
Llyn yw y tynn llanw tonnog, ar ddryghin
Llyn a dwr iwin lle nid a'r Eog.

Lly

* Whitlings.

Llyn Dwr cynnwr mewn Co.—dioferdaith
A Dyfrdwy 'n mynd trwyddo;
Hynod yw gleiſiaid honno,
Iawn bryd, yn ymborth i'n bro.
Hoff hynod ddwr dwy ffynnon,—gwar addoer,
Yw gwreiddyn 'r brif Afon;
Ai rhuad hell y rhed hon,
Gwyr llawer i Gaerlleon.

ROBT. WM. RHIWEDOG.

Llyn croyw ei ddwr, llyn cruaidd eirian,
Llyn taeog ruad llyn teg raian;
Llyn dwys gefnllif lle nid oes gwinllan,
Ond hyd ei gyrrau hwyad garan,
Ni chladd Eog luoſog lan—tra chwyth
Ni wyl e fyth un Leſiathan.
Dyfrydwy merinwy llyr maranedd
Peryddon aerfen laſwen lwyſwedd
Ar hyd annel y rhed o Wynedd
Yn llain i Gaer, Lleon o gyrredd
Trwy bedair Sir rhennir rhinwedd—ei dwr
Rhwydd i gannwr y rhoe ddigonedd.

KOLANT HUW, or GRAIENYN gar llaw'r Bala.

Yn ganlynol, &c.
Llyn mawr, llyn dirfawr llyn da,—Llyn Tegid.
Lawnt agos i'r Bala:
Ag Aerfen ar ei gyrſa
Traidd o rym, trwyddo'r a.
Beunydd ddi elfydd ddalfa,——o BYSCOD.
Byw oſgordd geir yma:

Di gyfartal i'r Bala
O'r llyn Dwr, yw'r llawnder da.

JOAN ap ROBERT,
gar llaw'r Bala.

Yn ganlynol &c.

Llyn, rhwng deufryn, llawn dyfroedd—tramawr
Tremynt man Aberoedd:
A phrif Afon gwirfon goedd,
Hoff rediad dwy o ffrydoedd.
A Llyn yw hwn a llanw hardd,
Hynod ryfeddod i fyrdd,
Fr oefoedd bu gyhoedd Gerdd,
Hanes faith gan hynaws Feirdd,

JOAN ap GWILYM
Cy nwyd.

Yn ganlynol, &c.

Trwy warr o Ro tryweryn,——a Dawlodd
Y Diluw i'r Dyffryn,
Gwaelod pan'lle gwlad Penllyn,
Wythen llaith aeth yno 'n llyn.
Llyn Tegid llanwad hygyrch---ar ddryghin
Cynddeiriocca'i entrych
A Dwrdwy o'i daeardyrch,
Gan gynnwr ei ddwr a ddyrch.
Llawr clawr clwm tri chwm tra chymmyſg---Oror
Eiry, rhew a Chenllyſg
* Llwch † llech § llorf ‖ corf, torf terfyſg
Hyder ¶ ffaig, adar a phyſg.

* Llwch, in the ancient Welch, called Llyn, † A Covert. § A Pipe. ‖ Corp without a Head. ¶ Courſe.

Y Trydydd Teſtyn am adferiad Iechyd
Yſwain Price o'r Rhiwlas.

Y Meiſtr Prys, gwyddys ar goedd,—ei ſaldra
Iſeldrem ei 'ſprydoedd,
Clywaf ſwn; mai clwyfuſoedd,
Ar gwyn fawr gan niferoedd.
Dros hwn gweddiwn yn dda,—am iechyd
Mae achos i'w goffa;
Diau ai nerth, Duw a wna,
Oi wiw 'wyllys ei wellha.
Pennaeth gwladwriaeth dirion——a ydyw
Aden y Trigolion:
Canol Fur, cynnal Feirion,
Mae 'n llywydd hylwydd i hon.
Eſtynned rhodded Duw rhi——ei ddyddiau
I ddiddan hir Oeſi;
Yn Rhiwlas bo'n rheoli,
Yn glod a nerth in gwlad ni.

JONATHAN. HUGHES.

Yn ganlynol, &c.

Meiſtr Prys wiw ddilys ddelo,---iw iechyd
Uchel iawn y llwyddo;
Hoyw ras a hedd, hiroes iddo,
Iechyd o'r afiechyd fo.
Deued iddo 'r dedwyddyd,——dymunol
Dim einioes anhyfryd:
A chalon i ochelyd,
Gwag uchder a Balchder byd.
Llwyddiant a noddiant iawn iddo---gwyddys
Yw gwaedd pawb am dano;
Pan dderfydd ei fyrddydd fo
Duw or boen ai derbynio.

Y Criſtion rhadlon a rhydd---Mae einioes
A mwyniant tragywydd;
Àil Einioes o lawenydd
Diddarfod rhyfeddod fydd. D Ddu o'r Eryri.
Yn ganlynol, &c.

Rhiwlas trigfa'r haelion—er oeſoedd
Mae'n raſol eu moddion,
Eluſengar lliwgar llon
Bri a mawredd, bro Meirion.

Pryſiaid mewn hap arhoſant—niferoedd
Anfarwol fyddant;
Ou beddau gwiw enwau gant,
Heb lid awydd blodeuant.

Ir Prys yna 'r preſennol,—wr hylwydd
Or Rhiwlas le breiniol:
Bydded einioes budd doniol
Dda hoyw air nudd, hir yn ol.

Gorau ei Barch hyd gyrrau byd,
Yw Prys fwyn parhaus ei fod,
Yn iachau 'r gorau ei ged,
'Wyllys y glyw, er lles gwlad.

Llawn addien, llyw a nodded,
Llon yw Meirion, llawn ymwared,
Llawdd iw deulu a llwydd deled,
Llew iw garu a llaw egored.

GWALLTER MECHAIN.

Yn ganlynol, &c.

Duw tyner da wyt inni—dy Deulu
Da dylem dy foli;
Ar frys o bydd d'wyllys di
Enioes dyn a eſtynni.

Da

Da rhoddaiſt di wir heddwch,—i Breis
Wiw bryſur ddedwyddwch;
Ei edfryd o'r triſtyd trwch,
A'i gerydd i'w hawddgarwch.
Odſa o ryw wael adfyd,— a gafodd
I'w gofio dros ennyd:
Gofwy o'r nef oedd hefyd,
Ar fin y Bedd, oer ſan Byd.
Uſtus cyhoeddus haeddol——o iawnbarch
Yn y byd preſennol:
Hir bo'n Rhiwlas urddaſol
Yn bod a'i Aerod o'i ol.

ROBT. WILLIAM, Rhiwedog.

Yn ganlynol, &c.

Coffhad o gariad gwiw eirias----ollawl
Allor Duw ſo 'n urddas:
Am drugaredd rinwedd ras
(Ner haelwych) yn y Rhiwlas.
Riſiart Preis er dyfeiſio,—pob moddion
Meddynt yn ffaelio;
Ond er hyn o draſyn dro
Ei Dduw anwyl ddae yno.
Cyfrwyddodd iawn fodd yn fuddiol,—hoffwr
Yn Offeryn lleſawl;
Doctor iſallt cae raſol
Dop y modd, Duw pia mawl.
Ymgeledd ryfedd a roes, y meddyg
A meaddodd ei drymloes;
Doethineb i adwyth einioes;
Llaw Dduw 'n hyn, yw llwydd ein hoes.

Os

Os cauwyd Heſechia,----mewn cyſtudd
Ca'i eſtyn ei Odfa;
Yr un Duw, wnai ran da,
Parhaus ammod a'r Preis ymma.
Ar un hwnnw enw union.——Ior y byd,
(Ar ei ben bo'r Goron,)
Ai cadwo'n ddi hoccedion.
Na fo'i blyg i Fabilon.
Adferiad hynod fawredd,——a gafai
Cofwy Duw gogonedd,
Boed yr hawddgar drugaredd
Gwedd ei law'n dragwyddol hedd.

THOS. EDDS. NANT.

Yn ganlynol, &c.

Erglyw o Jeſu Arglwydd,---eir Gweddi,
Iawn gwyddoſt Ior hylwydd;
Ein bwriad ai rediad rwydd
Rhadras, wrth angenrheidrwydd.
Ar dy law hylaw DDuw 'r hedd, mae bywyd,
Di bia 'r anrhydedd;
Dibenion iawn dyb unwedd,
Clefyd; oer benyd, a'r Bedd.
Dyro Ion dirion DDuw dad,——o bryſur
Bur raſol adferiad;
Ein Duw gwir yn dy gariad,
I Breis glwys bo hiroes gwlad.

Sion Cynwyd.

Molawd yr anrhydedus FFitz Morys
O Leweni——————————
Ap Morys hyſpys ei hedd,——wir fwriad
Ai arferol duedd;

Mae

Mae 'n bleſer gwiwber y gwedd,
Gannu llieniau Gwynedd.
Mae rhoddion llaw Ion yn Llyweni, hael
O helaeth ddaioni;
O glod a nerth, 'in gwlad ni,
Mae'r gwr, yn mawr ragori.
Mewn llawn fyd hawddfyd a hedd,—y byddo
Yn byw addas fuchedd;
Ag Einioes i ogonedd,
Gwiw er mawl y gwr a'i medd.
Boed leſſawr lwydd fawr ei lin—a thrugar
Wrth yr egwan werin:
Bid gwr, i roi bwyd a Gwin,
Iawn ffrwd yn gyffredin. D ddu or Eryri.

Yn ganlynol, &c.

FFitz Morys ddilys i'w ddydd,—Llewen
Lle enwog ei chynnydd,
Amlhawn ſain, mawl hwn ſydd
A mawr glod ym Mor a gwledydd.
Rhoe braw ddinam oi brif ddoniau,—odiaeth
Awdwr celfyddydau·
Hwn ddyg waith, nyddu a gwau,
I ofer ddynion fyrddiwnau,
Cenneddfau rhannau pob rhinwedd, cafodd
Er cofio trugaredd,
Yn rhodio mewn anrhydedd
A byw 'n lan bo yn ei wledd.

JONN. HUGHES.

Yn ganlynol, &c.

Dere o Awen dirion——a'th gymmorth
I ga'mol gwr ffyddlon.

FFitz

FFitz Moros a dilys don
A haeddai glod gwehyddion.
Gwr tyner a gar Frutaniaid—hyf-ffel
Hofffal ein hynafiaid:
I gynnal achos gweiniaid,
Yn ei Blwy, mae 'n anwyl blaid.
Gwehydd gwan fennydd wyf fi, yn chwannog
Yn chwennych ei foli;
I ddynion gwnadd ddaioni,
Mewn anghenrhaid mwy na rhi.

Sion Cynwyd.

Yn ganlynol, &c.

Dedwyddawl anrhydeddus.—yw tymmer
Wir Thomas FFitz Morus,
Gwnai drefniad raniad di rus
Fyw Leweni, 'n foliannus.
Ei lydain adeiladaeth,——ai fawredd
A lafuriai 'n helaeth:
Drych hyfedr drwy orchafiaeth,
Glod wiw nod, i'n gwlad a wnaeth.
Union a chyfion dyrchafwyd,—ei enw
'N ddaionus a brofwyd:
Ai hardd orcheſt ardderchwyd,
I ddeffro claer ddyffryn clwyd.
Cannaid hwyl enaid oleuni,——gaffo
Ag effaith daioni,
Angenach braint gwynnach bri,
Na llieiniau 'n Lleweni.

T. Edds. Nant.

Y 5 Teſtyn i'r Ceiliog.

Y

Y Ceiliog odlog adlais,——mwyn Bencerdd,
Mae'n byngcir peraiddlais,
Ein deffro mewn cyffro cais,
A byrr alwad boreulais.
'Sbrydol wyddorol 'dderyn,——aur Aſgell
Ferrau eſgud frwyſgyn,
Cura at yrfa terfyn,
Tywallt ei waed, o wyllt wyn.

JON HUGHES.

Yn galynol, &c.

Rhyfedd yw, ei ryw a'i rodd,——ei adlais
Fu'n edliw rai bechodd,
Ar ei ganiad mad fu 'r modd
Drwy alar, Pedr a wylodd,
Min dydd ai 'wenydd wiwnod----e'n deffry
O'n diffrwyth ſadrondod:
Y peraidd leiſiwr parod
Aderyn byw, dewra'n bod,
Llym tanbaid diriaid yw'r' deryn,—amlwg
Yr ymladd iw derfyn:
Fe'i hoffa Llew, glew mewn glynn,
Cawr ydyw, 'n curo'i edyn.
Fe er nâd Hwyad a Hedydd—a Brân
Yw Brenhin boreuddydd:
Pencerdd pyngciad toriad dydd
Chwibianog ucha beuunydd.
Udgorn groch, wiw gloch i gla,—neu Awrlais
I oerlwm tyotta:
Tri phwngc Garol doniol da
Cu hoyw Gywydd Côg aua.

GWALLTER MECHAIN.

Aderyn yw od di-rol,——er hynny
Mewn rhan, mae'n yſbrydol;
Gwnae Bedr yn wybodol,
Draws ei ffydd, o droſedd ffôl.
SION CYNWYD.

Yn ganlynol, &c.

Swyddog yw'r Ceiliog hy alwad,—Gwyliedydd
Goleudeg flaen rediad:
Ef ſydd yn glochydd i'n gwlad,
Ar foreu orau fwriad.
Adeiniog Geiliog ſy'n gwilio,—y Teulu
Tawelaidd ſo'n huno:
Os mab iw arab wirio
Gwr ei Fam hygar vw fo. D. DDU ERYRI.

Yn ganlynol, &c.

Gwas brwd bert, ag yſbryd balch,
Gawr iawn fodd, a'i Goron fylch,
Geiliog gwiw, a golwg gwalch,
Gura ei gâr, a garw'i gylch.
Gelyniaeth helaeth halog—ffrwyth y cwymp
Ffraeth y cwyd mewn Ceiliog:
A phawb ffol gelynol glòg
Sain annuwiol ſy'n euog.
Ond yr hwn o'i drueni—gywir ddawn
Garo Dduw'n Goleuni:
Mae pob peth yn bregeth bri
A'r deunydd er daioni.
O bu'r Ceiliog boreu coeliant,—i BEDR.
Yn bod 'n argyhoeddiant;
Ond llwyr y ceid llawer cant,
Oi achoſion bechaſant. T. EDWARDS.

Awdl

*Awdl Rhyddid, gan* D. Thomas.

Arddwyrea 'r ddewr Awen
A chyrch hyd yn entrych nen,
Dyrcha fawl bywiawl o ben
I Ryddid wawr addien.
Lluoedd niferoedd anfarwol,---Bo[illegible],
Y Byd mawr trag'wyddawl,
Canant emynant eu mawl,
Am Rydid ymwaredawl.
Gwiw Ryddid, yn y Gwreiddyn
Yngwaelod cydwybod dyn,
Mae'n gyſur di-feſur fawl,
Cry didawl, i'r Credadyn,
Mae Rhyddid yſyryd, pryd priodol,
Praw iawn o degwch, prynnedigol,
Dawn DDuw uchod, i'r dyn heddychol,
Cu wiwdeb yd ŵ, i'r cydwybodol,
Gwelid nad rhyddid treiddiol,---i bechu,
Yn groes i Jeſu, lon graſuſol.
A feddo 'r tangnhefeddawl,—— wir heddwch,
A'r Rhyddid yſbrydawl
Iw erbyn ddyn diddanawl,
Ni fydd Duw, ac ni faidd Diawl.
Hawdd ammawr, heddyw yma,——y Rhyddid,
O rodd y Gorucha,
Henffych gynnes * DDwywes dda,
Lath arian, † Eleutheria.
Neud hyſbys dengys y Dydd,——wawr heddwch
A'r hyddoeth lawenydd;

* Duwies. † Duwies Rhyddid.

Cangen lawen Olewydd,
Yn ei llaw fongaw a fydd,
Fy ngwriad, a fy mawredd——fwyn awydd
Fy newis anrhydedd:
Yw datcan rhan eu rhinwedd,
Bob pryd o'm bywyd i'm Bedd.
Neud gwerthfawr llwyddfawr ei lles----hoff rinwedd,
FFrwyno trais a Gormes,
I ddynolryw ddoniol wres
Didwyll yw'r warcheidwades.
Hi wnaeth i lawgaeth wiw les.----hoen eithaf
Hi wnaeth i'r anghynnes,
Weled Haul oleua tes,
A thirion fawr wyrtheres.
Dan net ei haddef lan hi,----nod gwiwdeg
Nid yw gydwerth iddi;
Darnau aur ein daear ni,
Neu arian yn aneiri.
Er ei mwyn hyfwyn yw hi yn ufudd
Y nofir y weilgi;
Caiff y mor hyll oror lli,
Drin ei gefig draw 'n gwyfi.
Ein haflwydd anedwydd ni,
Echryfawl yw ei chroefi:
Caredig cywir ydi,
Neud cas yw ei hanras hi,
Mae rhediad ei mawrhydi
O fel a llaeth fal y lli:
Arwyrain firiain o fawl,
Dragwyddawl a drig iddi.

Hi

Hi a amddeffyn ddyn a'i feddiannau,
Hi geidw wledydd, ac Adeiliadau,
Mae'n puro'r Eglwys, mewn pêr aroglau,
O'r lli a'r godwrdd, a'r holl rwygiadau,
Duw tramawr dettyd rwymmau,—hen Ragrith
Er taro'r gaulith i'r tir golau.
Ffrwyth cynnen ben draphen droch,
Flin wedd yw afonyddwch
Ffrwyth Rhyddid trefnid di roch
Yw'r llwyddiant a'r holl heddwch.
Tyn yr oes o tan yr iau,—echryfawl
A chroefion ymbleidiau;
Dryllir gweifion gweigion gau,
A thorredig gaeth rwydau
Rhag dirdra aeorfa erfawr,—rhy athrift
Y rhuthrwyllt gleddyfawr,
Tra Jefin yw y tryfawr,
Penllâd rhwng lleuad a llawr.
Yfberthid Rhyddid yn rhwydd—— wawr liwdeg
A wna'r wlad yn ddedwydd:
Mal yn *Sparta* llawna llwydd,
*A Thule*, mewn iaith hylwydd.
*Lycurgus* liw cywirgoeth,
A *Solon* heddychlon ddoeth,
Troefant y llerwchwant a'r llid,
I Ryddid, yn oreuddoeth.
O'i phlaid yr hen * *Geltiaid* gynt,
Diddwl anorfod oeddynt,

* *Celtics,* A'u

A'u hatſau 'n gwau mewn gwynt,
A dynion meirwon danynt.
Lloſgwyd neu yſwyd Dinaſoedd—hirion
O herwydd terfyſgoedd:
Dyrchafu ymrannu 'roedd
Dan ufel, hyd y nefoedd.
I gadw yn ôl gydâ nerth,
Orwag yntyd, rwyg anferth;
Da fu rheol lefol lawn
A thiriawn gyfraith * Jorwerth.
Er hardded glaned mewn glyn—yw Rhyddid
A'r heddwch i'w dilyn,
Nid teg yw rhedeg er hyn,
Trwſt hirfaith tros y terfyn.
Rhag blinder o bethe'r byd
Naws rhuddfaog bradog brwd
Hwy na dàl dial ar dud,
Yſai'r hedd îs y rhod.
Ei hadſain leddfsain ddi lid,
Trwy ddaear hygar a hêd
*Band rhyfedd rhinwedd y rhad.*
Pritglud clau dud clodadwy,—yw hon
A hynod gynnorthwy;
Ni fu gwlith un fendith fwy,
I Frydain, le dyfradwy.
Trwy nodded gogoned gun,
Gwirionedd rhinwedd y Rhên
Diau nid oes einioes un,
Bro dan Haul, ail Brydain hen.

* Edward the 6th.

Trwy

Trwy Frydain gywrain rhed gawr—lawn uchder
O lonychdod erfawr:
Bu lawenydd i'n blaenawr,
Gael aur wên, a golau'r wawr.
Dan *Sior*, ein llawn bor a'n Llyw,
Gwawr Rhyddid a geir heddyw;
Gwawr odiaeth gywir adeg,
Gwawr deg o gariad yw.
Fflwch degwch digaeth,
Eurwawr dymmawr daeth,
I'r wladwriaeth reol dirion.
Edfryd iechyd oes, o fyd glefyd gloes
I rywiog eirioes, Aer y Goron.
Dull o wiwdrefn, da yw llywodraeth,
Ein bro dirion wen briodoriaeth,
Rhag ail ennyn, rhwyg o Elyniaeth,
Ymryſonau amryw watanaeth.
Wele dirion wiliadwriaeth,
Pennaduriaeth paun hyderus,
Iawn gloi dewrion ein gwladwriaeth,
Rhag bradwriaeth, rhwyg bryderus.
Duw a rannodd ei dirionwch,
I'r wen frodir, iawn hyfrydwch,
E gaed Rhyddid gydâ'r heddwch,
Edef euraid, yw difyrrwch.
Rhyddid cynhennid cawn hwn—yn rhâd
Anrhydedd i'r *Pryffwn*
Yn lle caethder toſter twn,
Gwreichionog o eirch Annwn.

Ail

Ail Ryddid wawl oreuddoeth, mae'n eiſiau
Mewn aſwy ffwrn fflamboeth,
Crâs enbyd le creiſionboeth,
Yw holl ardal Belial boeth.
Yn Nef awr addef y Rhyddid—beunydd
Nid oes boen nag erlid:
Na thraha lladdfa na llid,
Rhyfel nag unrhyw ofid.
Wrth yrſa Rhyddid o werthfawr heddwch,
Deuai i * Galia y diogelwch,
Duw ne a wyrodd ei wiw dynerwch,
O'r gwaelodion yr ia o gledwch,
Lle rhydd i grefydd er digriſwch,—llon
Mae i'r Duwiolion y mawr dawelwch.
Lle bu gwenwyn a hyll baganiaeth,
I bawb oddef dan Babyddiaeth,
Llaw goleuni yn lle gelyniaeth,
Dirymmai 'r † chwil-lys, drom orchwyliaeth.
Rhwydeb eyſondeb cu ſydd,—o Rydid
Yn rhedeg drwy'r Gwledydd:
Gwreichionen gré ei chynnydd,
Ei mawl rhyfeddawl a fydd.
O medraf daliaf, af i'w dilyn,
I oror ‡ *Eidal* ar aur Edyn
Drwy *Hiſpania* neu dros y § Penwyn
Uchel drummog wych hylaw dremmyn,
Y dychymmyg fyg a fyn,—yn ddioer
Dan wych wenlloer dynnu iw chanllyn.

* *France.* † *Court of Inquiſition.* ‡ *Italy.*
§ *Appenine Mountain.*

Naws

Naws gywirſerch o ynys * *Gorſig*,
A hyd † myr y ihêd i ‡ *Amerig*,
Glowi *Aſia*, yn Eglwyſig
Goleuo deffro gwaelod § *Affrig*.
Heb ryddid, hy beridoia,—a hoywfraint
Ei hytryd fwyneidd-dra;
Pa gymmorth yn eorth wna,
Dwyreindir Daear India.
Rhyddid calondid y cla—ddiogel
A ddwg yr Eſmwythdra:
Os heb wres y DDwywes dda
*Gwae Rufain ag Arafia.*
Mae'r arian a'r ‖ Mererid,
Trai annifyr yn troi yn ofid,
Heb ryddid, un boreuddydd,
Gafael gaeth yſywaeth ſydd,
D Dol eini es ddi lawenydd,
Ni ddichon yn ſoddlon iad,
Ond cariad ddwyn y cerydd.
Bâr ar wyr *Oerop*, ber- yr awron,
Yw eu mordwyaeth, am wyr duon,
Dwyn o *India*, ar deneu wendon,
Aneirif gaeth. dan arw fygythion
Hirddrwg rhyw olwg creulon—dwyn heddwch
A mawr ddiddanwch myrddd o ddynion.
Dynoldeb purdeb mwyn pêr,—a ddylid
Ei ddilyn boh amſer;
Gan ddangos yn achos nêr,
At wyr *India*, 'r tirionder.

* *Corſica.* † *Seas.* ‡ *America.* § *Africa.*
‖ *Precious Stones.*

Bob amſer rhodder y rhan,—o borthiant
A berthyn i'r truan:
Tynerwch tannau arian,
Fo'n yſtyr gwewyr y gwan.
Dy ran o Jeſu i druenuſion,
Rhyddid ag iechyd, rhoddiadau gwychion,
A Duw fo noddwr, y Difinyddion,
Llyw ei bur Eglyws, o'i holi beryglon.
A rhodder i'w Nêr a'n Jon,—fawl hyber,
Naf a addoler, o iawn reddylion.
Dwyre yn ol, i dir nês,
Fy Awenydd i'r fynwes:
Datcan fain yw hoywfraint hedd,
*A* bri *gwynedd*, *bro gynnes*
Mawredd bro wynedd a'i breiniau—y wlad
Oludog ei thlyſau:
A mawl hydr yn y mydr mau,
*Mwy* a ganaf a'm genau.
Mae Sain drwy Frydain frodir,—gair anwyl
Y gwirionedd cywir:
Fengyl a'i Themyl a'i thir
Brîg y iaith a bregethir.
O ddwyfor dain a'r * DDyfrdonwy,
Ceir hedd hoywdeg, cyrhaeddadwy,
Hed o lun wiwlan hyd Lan Elwy
Ag o Fionydd, gu i Fynwy.
Mwyn doreithiog, yw y mân draethau,
Eigion y llymnoedd, a gwinllanau,

* *Dyrſdwy.*

Celr

Ceir pob rhywogaeth ffraeth o'u ffrwythau,
O'r iach hoyw frodir, a'i chyfreidiau.
Da blithog laethog lwythau,—da carniog
Ceir y da gwlanog 'rhyd y glynnau,
Cen trem goleudrem glodrydd,—ar oror
Hen *Eryri* fynydd:
Rhyw flodeu rhif o wledydd,
I'w canfod îs Haul-rhod fydd.
Trefner cyfoder cofiadon,
Hynod o henwau'r grymmuſion,
Iawn dda cadw 'n ddi hoccedion,
Goffadwriaeth, o gyff dirion,
Prawf o lwyddiant prif luyddion,
Lloegr anwyl a'i holl gyw einion,
A da wrolbarch i dir *Albion*. Scotland.
A thir *Gwalia* ai thrigolion. Cymru
Bid ein iaith heniairh hon—mewn blodau
Yn nyddiau *Gwyneddion*. Gwyneddigion.
Trwy holl wyndud y try ilawnder,
Hoywaidd fendith a'i haddfwynder,
Aches cynnes cawn
Hafdes gwres a grawn, } Gair uniawn goreuner.
Na ddel gormeilwyr, ddwylaw grymialog,
Etto i'r ynys, yn wyr tarianog,
Na bo i'r gafon, yn rhai bygylog,
Lygru draw wythi hên Loegr doreithiog,
Llawn Rhyddid llon rhïeddog,—hyd ddiwedd
A fo holl wyneid, hoyw feillionog.
Trwy'r byd nid trifſyd y tro—cu Rydid
Caredig a lwyddo:

Rhag i gwmmwl dwl yn do,
A chaddug ei orchuddio.
Mol'n ddilid,
DDuw a ddylid, } Mwyn yw'r heddwch.
Amein rhyddid,
Gwawr gywiraf,
Dydd dedwyd iaf, } Wiw lonyddwch.
O lunieiddiaf,
Cynnal rhyw ofal rhyfedd,—a ddylid
I ddilyn ffordd rhinwedd;
Dilyn byth, hyd lan y Bedd
Gywrainwaith y Gwirionedd.
Bo i Deulu bydolion,
Fyw'n addas i ras yr Ion:
Dan wên dda lawen ddi lid,
A rhyddid, nef a'i rhoddion. Dafydd DDu o'r Eryri.

Awdl Ryddid ar y pedwar mesur ar Hugain
Gan Domas Edwards' alias Tomas o'r Nant.

(1) Un Odl uniawn.

Pan greodd Duw nodd ordinhâd,—y byd
* O Bedwar defnyddiad,
Rhoddai ddyn yn rhydd ddi wâd,
Urddasol ar ddewisiad.

(2) Unodl Grwca

Ag o hynny gwahenid,
Dyn a Duw o dan y † Did:
Daeth ga ael a melldith gofid;—pob rhai
A blygai o'i blegid.

* *The Four Elements.* † *Cadwyn or Chain.*

(3) Unodl

(3) Unodl Gyrch
Caethiwo anurddo wnaid,
Rinwedd cynneddfau 'r Enaid;
A phechod, a'i nôd a wnaeth
O elyniaeth ei lonaid.

(4) Præſt Cadwynog
Cwymp y Dyn, ias elyn ſwydd,
Byd a * thymp, gwybodaeth oedd;
Dyna † arfaeth Duw'n ei wydd,
Nodai 'r gwaith i'w wneud ar goedd,

(5) Præſt Cyfn'wydiog.
Melldith dig, am walldaith den,
Roed ar y *Sarph*, rwyd arw ſyn:
Ac Addewid Ryddid rân, Gen. iii. 14, 15.
I'r *wraig* o'r *had* rwygaw hon.

(6) Deuair fyrrion
Dyna 'r llwybr, er dwyn o'r llid,
Reol wreiddiol 'r ail Ryddid.
Had y Wraig hyder ogwydd,
A had y Sarph, o hyd ſydd.
Mae 'r ddwy anian hunan hon, Gal. v. 7.
Amryw iaſau 'n ymryſon;
Cain ag Abel, cyn gwybod, Gen. iv. 3, 4.
Geirwyr nerth egorai 'r nód.
Offrwm Oen â phraw manwl, Heb. ii. 4.
Offrwm ffrwyth daearlwyth dwl.
Dau'n rhoi Offrwm llwm rhag llid, 1 Sam. xvi. 7.
Duw ni rodd ond un Rhyddid, Luc. xvii. 35.

* *Birth-time.* † *Intention.*

(7) Denair

(7) Denair fyrrion
(8) ac Awdl Gywydd ynghyd.
Rhyddid rhwyddodd,
Yr aberth rodd:
Oen o'r praidd drwy ſanctaidd ſêl,
Rhyddit Abel attebodd.
(9) Cywydd Lloſgyrniog
(10) a Thoddird ynghyd.
Ond daear *Cain*, dorrai 'r cynnydd,
Cnawd oedd honno, 'n cnoi dihenydd,
Darogenydd drygioni;
Dyn ydoedd, Duw yn ei nodi,—i'r Byd,
Ag yno am Ryddid gwnai 'mroddi.
(11) Gwawdodyn byrr.
Dyna'r Feilaith dan arw folltau,
Seirph a gwenwyn, ſur * ffyg wyniau
Cerddant hyrriant ar eu torrau,—a'u bâr
Am anian ddaear, yma 'n ddiau.
(12) Gwawdodyn hir.
Gado 'r Duwdod, ac awdurdodau,
Ex. xxxii. 4.
Eithr eu dewis oedd wneuthur Duwiau,
Eſay. ii. 8.
Toddynt a neddynt eu defnyddiau,
Ezec. xxi. 21.
Mwn hoff rinwedd, meini a phrennau,
Eſaſ. xxxvii. 19.
Aur ac arian, o'r gorau, a feddyn t,
Salm cvi. 36.
Hwy a'u haddolynt, i'w hoyw DDelwau.

* *Diſguiſe.*

Dylai

Dylai 'n canlyniad holi 'n c'lonnau
Bwyth dwymn oneſt, beth ydym ninnau?
'Nawr onid ydym? ſal yr hen Dadau,
'N ymroi ddewis ein hamryw DDuwiau,
Cr'eduriaid ac aur dyrrau,——ſy'n rhoddi
1 Cor. iii. 24.
Diammeu Ryddid i amryw raddau.
Arian yw'r ſynwyr, i rai a ſwniant,
Arian praw 'n gwyrth, ran pryn a gwerthiant,
Arian Cybyddion ar wangc baeddant,
Arian rhai ofer, o'u rhan rhwyfant,
Ag ar 'r Arian y gweryrant.
Gwawr y Rhyddid hon a gyrhaeddau,
*Cain* a *Pharoh* accw 'n Offerau,
A ſail wiw gyſon, *Saul*, ag *Eſau*'
A bolchwydd *Babel*, balchaidd bibau
Hwy goethynt eu heuog weithiau—llwythog,
Yn eu toreithiog naturiaethau.
(13) Byr athoddiad.
Ffrwyth ffraeth wybodaeth wibiadwy, nattur
Ni ettyl ei mympwy,
Hi rwyf wyrthiau o'i rhyferthwy,
A'i hawch nerthol i'w chynnorthwy,
Hi ddwys gwyd yn addyſgiadwy,
Gan ymledu 'n ganmoladwy,
Mawr ydynt a chym'radwy,—Ond iawn fodd
Duw'n ei Fab dyna fwy.
(14) Hir athoddiad
Dyna ddecmeuad, iawn heddwch reol,
Cael adnabyddiaeth, coel enaid buddiol,
Duw 'n ei Fab Jeſu, a dawn fabwyſiol,

Nid

Nid rhyw wrth ryddid, naturiaeth wreiddiol,
Lle mae, yngwae angheuol—gynnwrf gau
Llyn wrth ddrwg nwydau, llanw a thrai gnawdol.

Er yn noethineb arian waith ddynol,
Cael yma ddoniau, ac elw meddiannol,
Rhoddiad wybodaeth, pob rhyddid bydol,
Etto mae'r ddyfais, at dymmer DDiafol.
Ceiff pechod a'i nod niweidiol,—ddyrchafu,
Nes cael yn 'r Jeſu, naws calon raſol.

O! nabod Jeſu, ne byw Dywyſog;
Yr Brenhin a hoeliwyd ar bren halog;
Er profi o'r pren yn Eden oediog,
E fry ffraeth gafei, o'i farw ffrwyth gyfog,
Wele! ninnau, 'n cael ein hannog,
I'r rhyddid yn enw, 'r haeddiad eneiniog.

Haeddiad hwn ydyw, rhyddid eneidiau,
Rhyddid allanol, 'r haeddiad a'i lluniau
Rhyfel a'r heddwch i afael a'i rhoddau.
Rhwygo'r gyrch gérydd, agor gwarch gaerau
Ceſtyll e'ng, Môr a llongau—cyfoeth byd,
Barn a bywyd, heb wyrni bïau.

Fe pia'n lanwaith, fyw pen haelioni
Rhyddid brenhinol, i'w ddibrin honni
Rhyddid mewn maſnach, llawnach i'n llonni,
Rhyddid Efengyl, anwyl oleuni,
Rhyddid ffydd, at hoff weddi;—gorſedd gras,
Rhyddid y Deyrnas, rhwydded Duw arni.

Gwreiddyn i wreiddyn, rhuddin yw Rhyddid,
Moddion i foddion, rhoddion yw rhyddid,

Heddwch

Heddwch i heddwch, yw'r Heddwch rhyddid,
Nefoedd i nefoedd, treiddiodd trwy Ryddid.
Rhyddid Eglwys, lwys ddi lid,—ddyweddi,
A Duw 'n wr iddi, dyna wir *Ryddid.*

(15) Huppynt byrr.

Ceiſiaw Teyrnas,
Duw 'n wir addas, } Yw'r dawn Ryddid.

Pob un arall,
Swydd dda ddiwall, } ſydd addewid.

(16) Huppynt hir.

Dylai daliaeth,
Pob trafodiaeth. } gywir ddilid,
Ag'r addoliaeth,
Anr hydeddu,
Gwir ryfeddu,
A mawreddu, } Duw am Ryddid.

(17) Chydeddferr.

Rhyddid ſawn a'i rhwydd Adenydd
Byw amcanion i bob cynnydd
Ond yn bennaf mewn dyn beunydd,
Och am ddyfned ei chamddefnydd.

(18) Cyhydedd hir.

Rhyddid rhai ſai'n ſerth,
Afael * gwyw fal gwerth, } * gwywedig yn llaw'r ynſyd.
O enw llwyr anferth,
Gan hunan hoenus,
Ryddid anwireddus, } a ddinyſtryd.
Amryw ddyn aſtrus,

(19) Cyhydedd Nawban.

*Corah* a'i langciau cur wayw a lyngcid,
A'r tuchanwyr aflwyddwyr leddid,
*Ahab* a'i deulu heibio dawlid,
Accw o 'mroddi i'w cam Ryddid.
A thros y gwir, wrth ras a gerid,
Ar For a thiroedd, rhai ferthyrid,
Yn hoyw gan wirfodd 'n hwy gynhyrfid,
I gyd ymroddi, Gwaed am Ryddid.

(20) Clogyrnach.

Pen gwir Ryddid, pan gyrhaeddodd
Iauau 'r dyrys, wyr a dorrodd
Jubili byw lês, Haul Duw a hwyl des,
Oes gynnes esgynnodd.

(21) Cyrch a chwtta.

Anian 'r Eglwys, yn 'r Arglwydd,
Megis Haul, ymgais hylwydd;
Ar wlith daear, laith dywydd,
Sych y deigr, â char'digrwydd,
Gan ei nawsrym gynnesrwydd,
Pob cyfoeth wiw ddoeth a ddyrch,
O'i lewyrch, mawl i'w lywydd.
Haul yw cynnyrch, hwyl ceiniau,
I'r bydoedd, a'r bywydau;
Haul a heil yn eu holau,
Ellyllon, a holl wallau
Y tywyllwch, i'w tyllau,
Felly'r Rhyddid, llawn raddau,
Gyrrir bradwyr tir, neu ton,
Llech weision, i'w llochesau.

(22) Gor-

(22) Gorcheſt y Beirdd.

Da nod, i'n yw,
Ein bod, yn byw, } Rydit ras.
Dan rhôd, at ryw,
Yn awr, yw nerth,
A gwawr y gwerth, } euog ſias.
Rhag ſawr wag ſerth,
Gwae co, goeg hedd,
Pan ſo pwn fedd, } Angeu glâs.
Gan glo ing gledd,

(23) Cadwynfyr.

Derfydd Rhyddid * arfaidd roddion
Byd ai foddion boed a feddid
O na ddelid ni'n DDuwiolion
Dan addolion Duw yn ddilid.
Duw ro'n iorriad er antiriaw
Gras i gariaw 'r groes gyweiriad
Ai fwyn gariad a fo'n gwiriaw
I'n lafuriaw 'nol ei fwriad.

(24)

Brau yw dyddiau briw diweddiad
Llwngc oes doddiad llawn cyſtuddiau
Ceiſiwn wreiddiau cyſon roddiad
Cu nabyddiad cyn y Beddau.
Mae gwahoddiad
Heb ommeddiad } i bob graddau.
Byw gyrhaeddiad
DDerbyn meddiad
Rydd ymroddiad } DDuw'n ei Swyddau,
DDawn orſeddiad

* *Boldneſs.*

VERSES publiſhed in the *Cheſter Chronicle* to the Praiſe of the Gainer of the MEDAL at the BARD's Convocation in St. ASAPH, in Honour to his Poetic Abilities, ſtiled the

## WELCH SHAKESPEAR.

O THOU, to whom Aſaph's mitr'd Town,
Judgment and Taſte decreed the laurel Crown;
Diſtinguiſh'd Friend, whom Wales with Triumph owns,
Among the firſt of her poetic Sons;
Thou to whom Nature's lib'ral Hand has given,
The Power to ſcale Invention's brighteſt Heav'n.
O! were the Muſe but partial to my Vows,
Wreaths of immortal Green ſhould deck thy Brows,
And thy fair Fame ſhould future Poets fire,
To gain the proud Diſtinction of the Lyre.
But tho' with weak Acclaim thy Worth I hail,
Yet ſhall not Friendſhip's warmeſt Wiſhes fail;
Since thy own Works to future Times conſign'd,
Shall prove the matchleſs Vigour of thy Mind,
And to thy Name a Monument ſhall ſtand,
Till Gomer's ancient Language leaves the Land;
Like that great Bard that ſung on Avon's Shore,
Thy Mind ne'er drank of Greek or Roman Lore;
Yet Nature well the Want of thoſe ſupply'd,
To ſhame the poor Attempts of letter'd Pride:
To Thee in early Youth the Goddeſs brought
Enraptur'd Viſions of poetic Thought;
Creative Fancy, various, unconfin'd,
The Glance ſublime and Energy of Mind!
Since firſt the Muſe, ſweet Native of the Sky,
With Grace attractive fix'd thy Infant Eye;

As

As o'er the rugged Mountains thou haſt ſtray'd,
Oft haſt thou woo'd the viſionary Maid;
Oft caught her Whiſpers in the vernal Gale
Of Nantglyn's wild and deep romantic Vale.
Where the fair *Alwen* liſt'ning on her Way,
Would linger long enamour'd with thy Lay.
Thou Heir of Cambrian Bards of elder Days,
When Warriors toil'd to win the Poets Praiſe;
Whoſe bold impaſſion'd and heroic Strains,
Inſpir'd new Valour o'er the tented Plains;
And bid the Britiſh Youth to Battle fly,
With firm Reſolve to conquer or to die;
Thoſe Bards whom Edward's cruel Soul conſign'd
To ſlaughter all! but th' immortal Mind,
Which after Ages have revolv'd we ſee,
With renovated Luſtre ſhine in thee,
Whoſe energetic bold and glowing Song,
Diſplays the Force and Spirit of our Tongue.
Should pert Malignity, with Dullneſs come,
And ſtrive to blaſt thy Laurels in their bloom,
Let cold Contempt, alone, thy Breaſt inſpire,
Know thy own Worth, and rev'rence the Lyre.

SHAKESPEAR's FRIEND.

---

## Yr Arwyrain Seiſnig i DOMAS EDWARDS, neu SHAKESPEAR cymreig, wedi ei chyfieuthu o'r Saenaeg.

WIW dew lyw, o Elwy Lan,
Dryſoraiſt y dres arian,
Cyfaill cu cymru a'th câr
Di gam, wyt Fardd di gymmar
Llaw nattur yn llawn-itti

DDwin

DDwfn roes ddawn fwy na rhi',
Pe b'ai fywyd yn f'awen
Dae fil mwy dy fawl o mhen,
A chae Feirdd, uchaf arddel
D'eres ddawn, drwy 'r oes a ddêl
Er yn wan dweud rhan dy rinwedd
A lles mwy f'wyllys a'i medd,
Dy waith braw, doeth i barhau
Di ail ydyw'th daliadau,
Dy enw a'th clod uniaith
Parhau wna tra pery'n iaith,
Yn ail i'r Bardd iawn hwyl i'r bôn
Fu'n yfed ar fin Afon,
Ni yfaiſt ti ſi a ſain
Na rhwyfiaith *Groeg* na *Rhufain*,

Gwn itti, ond gan nattur,
Ce'ſt ddawn well o Babell bûr,
I wradwyddo drud addyſg
Pob balchder a dyfnder dyſg,
Cynnar ce'ſt accen rhoi cân,
Uwchlaw dull a chlod allan,
A ffanſi aneiri wnaeth
Fawr gyrraedd fwy rhagoriaeth,
A thuedd pan ddaeth Awen
A'i doeth bwngc gynta i'th ben,
Hyd frynniau cwrr odrau crwydri
Mawr aeth awch am ei rhith hi,

Mynych ddeliaiſt ei mwyniant
Tu ar nos o ddeuty'r Nant,
Ac *Alwen* eurwen ara,
Hoffai dy gan ddiddan dda,
A thithau olau helynt
Ebrwydd Gerdd, fel y Beirdd gynt,

Pan

Pan fu hel rhyfel rhyfawr
Cludfa oedd au eu clod fawr
Gwyr dewrion hyfion hefyd
Rhai oedd fraiſg arwraidd fryd,

Gwylltient a hwylient i hyn,
Deffro pob bryn a Dyffryn,
Gwyryfon glewion am glod
Bri haeddiannawl Beirdd hynod,
'Mddiffynnent Fardd hoff henwaed
Enw gwych yno â'u gwaed,
Rhai bu JORWERTH heb arwyl
Yn eu lladd yn hyll o'i hwyl,
Ond y lêw nodol Awen
Ni allai lladd Ellyll hên,
Wedi er oefau roi drofodd
Fri ei maeth llafur a'i modd,
Ag ail lan gu Oleuni
Fe wnaed hon i fyw ynot ti,
Datgan dy gan deg inni
Y grym maith fy'n ein iaith ni,
Pe d'ai ddrwg duedd oer wen,
I fygwth trwy gynfigen,
Dwyn dy glod arfod hirfawr,
Na ofna neb yn fyw yn awr.
Gad ddirmig i unig enni •
Da farn deg tan dy fron di,
Adnebydd dy iawn hybarch
A dod i'r Gân burlan barch.

Dechrau

Dechrau Carol Plygain newydd, ar y Dón Neu'r meſur, a elwir *Eluſeni'r Feiſtres.*

I.

DIHUNWCH da yw'r hanes, a mawrlles mael, drwy ffydd heb ffael,
Clywn eni CRIST trwy gariad, yn geidwad i ni i'w gael;
Pan greuwyd gynt y cynfyd, clybuwyd llef, holl ſêr y nef,
Cynheſol eyd ganafant ei foliant haeddiant ef.
Gwir DDuw oedd heb ddiweddiad, o'r dechreuad uche ryw,
Trwy'r hwn heb fêth, y gwnaed pob peth, o fawr graedigaeth Duw.
O! dymma fawr ryfeddod, yr un DUWDOD hynod un,
Y Tad a'r Gair, yn fab i *Fair*, a'i eni 'n ddiwair ddyn.

II.

Gan gymmaint fu rhyfeddod ei hanfod ef, Angylion nêf,
A ganent yn blygeiniol hynodol lwyſol lef,
Hoſſanna 'n y gorchafion, hyfrydlon fry, cyd leiſiai lu,
Gwir ewyllys da i ddynion, o eni 'r cyfion cu.
Ond pa'm medd amryw ddynion y bu 'r achoſion eni a chael
Duw Tad yn frawd, mewn dynol gnawd, mewn gwiſe dlawd a gwael?
Pam roedd yr Hollalluog, fal Dyn euog 'n un di nerth,
Pam bu'r pur, yn diodde 'r dûr, tan ddirfawr gur mor gerth?

III.

Dirgelwch maith i'r eitha, y ddau *Adda* yw, i ddynolryw,
DDau gynhyrchiolwyr helaeth, yn delio yn arfaeth Duw,
Y cynta yw'r *Adda* o'i wreiddyn, i'n herbyn aeth, trwy'r drwg a wnaeth,
Am fwytta o'r pren gwybodaeth, a'n troai i farwolaeth waeth;
A'r ail wir gynnyrchiolwr, yw'n gwaredwr goreu ei râd,

A

A ddaeth ei hun, yn DDuw yn ddyn, i'n dyddio yn un â'i Dad.
Diammeu yw mai dymma'r rhyfeddod fwya er *Adda* erioed,
A phob rhan o ryw, bu rodoliaeth Duw, i anrhydedd neddyw y rhoed.

IV.

Pob peth yn rhyfedd arfaeth creadigaeth Duw, mor ryfedd yw,
Holl natur fy'n pregethu ac yn clymmu hyn i'n clyw;
Dychon anfeidroldeb ei ddoethineb er mor llawn y llef,
Gan fôr, a thir, a thyrrau, a holl d'wyniadau 'r Nef;
A rhai'n eu gyd yn datcan ei allu llydan ymmhob lle,
Nad oes un Duw, i ddynoliryw, a'n gwnaeth ni i fyw ond efe.
Er maint er hyn mor hynod yr holl ryfeddod fwya un,
Fel dim y daeth, wrth faint a wnaeth, ymmhrynnedigaeth Dyn.

V.

Cyfiawnder oedd a'i galwad, am gael teg iawn, yn llwyr a llawn,
Yn ôl yr ammod cynta âg *Adda* cyfri a gawn,
Trugaredd oedd'r un amser on hochr ni, ag uchel gri,
Doethineb Duw ddaeth yno, i'luniaeth i helpio hi,
A dymma'r fawr ddirgelwch, i wneud ein heddwch â Duw Ne,
Daeth Crist yn Frawd, i wisgo cnawd, ac mor dlawd ei le.
Twy usudd-dod a'i ddioddefaint Crist yn fawrfraint i ni fydd
A phob lleshâd, trwy reddfol râd, lle bo caffaeliad ffydd.

VI.

Ond e'n fwyn gwiliwn goelio, mai fwnlo fydd, am Jesu yn rhydd
Dan ganu yn ddigonol, yn lle effeithiol ffydd,
Nid son am *Adda* 'r henddyn, wnae'n dwyn yn hy, dan farn a fu

Waith bwytta o'r pren gwybodaeth, i'n dal mewn alaeth du
Ond rhaid cael gafael profiad adnabyddiad o bob un,
O'n mewn y mae, fel ffrwgwd ffrae, dan deimlad gwae mewn dyn.
Yr *Adda* hyna a'i anian, ympiria 'n fuan 'mhawb 'run fodd,
Yr ail *Adda* a'i lun, 'n adn'wyddu dyn, pwy edwyn tin ei rodd?

VII.

Nid ydyw Jesu Dywysog, ymmethlem dir yn unig wir,
Ond un wrth ddrws pob calon, a'i ofynion yn fwy hir,
Os egyr neb yn ffyddlon, mor dirion daw, i mewn rhag llaw,
A chyd âg ef swppera heb brindra fyth cawn braw,
Cael gwala o ymborth nefol, *Manna* ysbrydol reidiol râs,
Cael undeb lawn, âg ef a gawn, yn flith sancteiddlawn flâs.
Cael trywddo 'r oruchafiaeth, orau bennaeth ar y byd,
Trwy ffydd ddi ffael, a dyna'r fael, rydd i ni'n hael o hyd.

VIII.

O! ceisiwn a chyd holwn, bawb yn gyttun, a wyddom p'run,
Ai'r Adda hen a'i 'r newydd yw 'n llywydd a'n pen llun?
Os yw Crist a'i anian ynom, mae ef fel Tân, i'n puro'n lân,
Oddiwrth ein holl bechodau, a chamweddau mawr a mân,
A'i ysbryd olud halaeth, yn dwyn tystiolaeth odiaeth yw.
Ein bod yn gu, gadwedig lu, yn Blant neu Deulu Duw.
Fal dywed *Paul* 'r Apostol, y cadwedigol weddol wawr,
Creadur yw, o newydd ryw, Ynghrist mae'n byw bob awr.

IX.

Bydd heddyw bawb yn datgan, a'u cân o'u ceg, yn rhisa heb freg,
Ei Oed yn ddeunaw canmlwydd yn digwydd o fewn dêg,
Peth ofer yw'r fath gyfri, ond clodfori 'n fawr, ei nefol wawr,
Gwir lewyrch, *Haul cyfiawnder*, o lawnder Ne' ddaw lawr,

A'i

A'i wres ſydd yn cynheſu, ac yn peri byw'mhob peth,
O! ryfedd râs, yſprydol flâs, trwy ei fawr-ras e'n ddi feth.
Gogoniant iddo canwn, addolwn parchwn, Griſt ein pen,
Tra bytho chwyth, dda lef ddi lyth, O! molwn fyth Amen.

---

Dechrau Carol Plygain newydd, o fawl i Griſt ein prynnwr, ar y Dôn neu'r meſur, a elwir *Suſanna fwyn.*

I.

HOLL blant dynion dowch un dyniad, â phlygeiniol neſol ganiad,
Dowch i weled yn wych olau, y mwya o ddidwyll ryfeddodau,
Dymma'r perwyl'rol hir ddiſgwyl, yn anwyl daeth o'r nef,
Tad trag'wyddoldeb, yn y preſeb, trwy ddoethineb ei waith ef
Rhyfedd ymddwyn, Tad y Forwyn, a'i phlentyn ar ei hoff lin,
A wnaeth y cyfan, yn faban bychan, i feudy'n druan, ddaeth i'w drin.

II.

DYMMA y rhyfedda o foddion, a fu yngolwg Nef Angylion,
Hyn a barai'r bore 'n beredd, DDirfawr foliant a gorfoledd,
Gogoniant penna, I DDuw gorucha, ar ddaear yma 'r hedd,
Ac ewyllys tirion, da i ddynion, mor gariadlon gywir wedd.
Bugeiliaid cwla, gaent ynghynta, y newyddion yma o'r nef,
A gwel'd yn bendant, ei Ogoniant, iw gwiw lw yddiant ei gael ef.

III.

Cly'wn i'r Bugeiliaid gyd a'u gilydd, rol cael fath rafol
hefol newydd,
Sef geni heddyw ar gynhyddiad, yn nina Dafydd CRIST eu
ceidwad,
Aeni i'w geifio, yn union yno, heb oflio nidro yn hwy,
Er bod gofynion y praidd yn fanwl, roedd Jefu i'w meddwl
yn achos mwy.
Ni orphwyfalant, nes y cawfant, fefm meddiant *Mai'r*,
Gydâ *Joseph* yn y preiefb, trwy gywirdeb yn ol eu gair.

IV.

Felly etto am dano un dyniad, pawb a ganlyn y Bugeiliaid,
Os daeth yr hanes gydâ rhinwedd, ffydd gretfawd mewn
gorfoledd,
Pawb a weliant ei Ogoniant, â gwir ddiffuant ffydd,
Pob rhyw feddiant a ad want, Crift a fynnant gras da a fydd.
Er caed addvfg i'n bedyddio, a'n dwyn ni atto ef,
Mae'n annigonol yr arfer ffurfiol, heb ras y fforydol nerthol
nef.

V.

Heb fwy rhinwedd na rhyw hanes, pob addoliad fydd yn
ddiles,
Nid Crift yw ef ymmhell oddiwrthom. ond Crift iw eni a'i
ras da ynom,
Nid Crift i'w addef yn rhyfeddod, heb wybod am ei waith,
Ond Crift i'w briodi, yn un â ni, ni, a Chrift i'n dyfgu ar
bob rhyw daith,
Crift yn gvfon, i bob achofion, i bob feion fant,
A Chrift cyflawnder, pob cyflawnder, trwy ras ai bleſer tros
ei blant.

VI. Hon

VI.

Hon i'r goleu yw'r fawr ddirgelwch, a nododd *Paul* os unol ſyniwch,
Mawr dd: ddadl trwy ddoethineb, yw dirgelwch gwir DDuwioldeb.
Criſt trwy gariad, wnae ei 'mddanghoſiad, mewn cynhwyſiad cnawd.
Criſt heddychlawn, a ddae'n ddichlin, Brophwyd, Brenhin, Priſt a Brawd.
Criſt yn aberth, dan y Gyfraith, yn bridwerth rhoe ei bur waed,
Twy i Criſt ddiodde, dros ein beie, o'n hanwiredde ni a ryddhaed.

VII.

Moliant iddo ymmhob tueddiad, cymmorth cadarn ydyw 'n ceidwad
Er yn *Adda* pawb ſy'n meiryw, YNGHRIST anwylfab pawb ſy'n ailfyw,
Er i ni ſyrthio, i bechod etto, nid yw'n gado i goll,
I ros bob'di eiriol, y mae'n eiriol, a myn haeddiannol ſadde oll.
Dymma gyſur pob gwir frcdur, di ſegur yn eu ſwydd,
Dymma'r felus wir orfoledd, gras da wledd Ynghriſt a'i lwydd.

VIII.

Fal hyn y ſai da'r heddai heddyw, ei Efengyl yr anwyl enw,
I'r newyddion da a dedwydd, o ganlynol fawr lawenydd.
O bai heddyw i bawb ddedwyddwch, ſain yr heddwch rhydd,
Sy Y GHRIST o lawnder ei deilyngdod, yn rhâd a pharod dwy wir ffydd,
Boed i ni heddyw'm adnewyddu cyn hy'ryfygu ei fawl,
Boed ei ogoniant, yn ben moliant, a byw yn ei haeddiant I bawb yn nawl.

IX. Mae

IX.

Mae er pan anwyd Brenhin Seion, DDeunaw o gannoedd a
fewn deg union,
Nid pell gall fod ei ail ddyfodiad,
Wrth 'r arwyddion i ni o'i roddiad,
Diſgwyliwn Briodfab ein heneidiau,
A'n Lampau 'n olau 'n awr,
Gwiliwn fel rhai angall ango', heb ymdrwſſio lithro i lawr,
Heddyw heddyw mae gwahoddiad, a bwriad oddiuwch ben,
O! na oedwn rhag ein hudo, i driſt ymado â Chriſt Amen.

---

Dechrau Carol Plygain newydd ar y Don neu'r Meſur a elwir y *Fedlau fawr*.

HOLL ffyddloniad, dowch yn unblaid,
Dowch i ganu i DDuw'r gogonaid, bendigaid ydyw'r dydd,
Y cawſom newydd, ceidwad ded vydd,
Oreu ei oglud, Criſt yr Arglwydd, yn fawrlwydd i ni fydd,
Dymma'r fendith fwya a fu, yngolwg llu o Angylion,
O mor fedrus felus fawl, cynheſawl y canaſon,
Hoſſanna, i'r Gorucha, yn fawl anwyldra'r Nef,
A heddwch i gyhoeddi i ninnau ei eni ef.

II.

Dymma'r addas, wir *Feſſias*,
Oedd ar ddiſgwyliad megis gwaelwas, ar gof heb urddas gynt,
Dyma ffynon'r holl fendithion,
A roed i'r Tadau mewn add'widion, yn awr mor gyſon ynt;
Dymma'r ſylwedd ſy'n lleſhau, dan'r hen gyſgodau a gadwyd,
A gwir gyflawniad rhoddiad rhydd, i ddiwair ffydd a addawyd.
A dymma'r gwir *Fanna*, a ddaeth yn hoffa o'r Nef,
O molwn, clodforwn, derbyniwn hoffwn ef.

III. Ac

III.

Ac nid ei dderbyn, 'n unig Blentyn,
Neu gael 'r hanes a wna ronyn, o rinwedd lles i'r un;
Ond rhaid drwy gariad roi derbyniad,
I Yſbryd Jeſu a'i bur d'wyſiad, at wir ſancteiddiad dyn.
Nid Jeſu 'n unig yn y Ne', neu ymmethlem dre pan anwyd,
Nag Jeſu chwaith ar fronnau Mair, ond Jeſu yn air y bywyd,
Er ei arwydd mewn Bedydd, mor benrhydd 'dyw ond bas,
Heb nefol yſprydol ſancteiddiol wreiddiol ras.

IV.

Mae rhai etto, heb gredu iddo,
Mewn 'magweddiad yn tramgwyddo, heb ddim i arwyddo o'i ras;
A'r un feddyliau, a'u Tad a'u Teidiau,
Yn iach hudol yn eu pechodau, yn cadw gwyſliau yn gas,
Mewn rhyfyg dwys yn bur ddidorr, yn neidio i'r ordinhadau,
Mewn ſwrth yſcafnder balchder byd; yn diodde hyd e'u dyddiau
Heb 'nabod eu pechod, na gwaelod eu drwg wyn,
Yn diyſtyru Criſt Jeſu, ddae i'a tynnu at DDuw 'n gyttun.

V.

Clywſom lawer, y prif amſer,
Am Sarph yn *Eden* ddrwg iawn hyder, a'i hen gyſrwyſder hi,
Clywed beunydd faint yr aſlwydd,
Trwy ei thwyll ynddygn iawn a ddigwydd 'n annedwyddymz i ni,
Er hyn er dwndro am honno ymmhell a dichell mor frady-chus.
A maint o ddrwg a wnaeth heb dorr i'n heppil mor anhappus,
Er hynny llwyr lynu i'w charu a'i choelio hi,
O flaen Jeſu, ſu 'n gwaedu i'n uchus brynnu ni.

VI. Hen

VII.

Hen iaith hono wrth Adda a'i cidde,
Oedd er pechu ei garu a gwyro a delio 'n erbyn Duw,
Ni raid dychrynnu, er i chwi bechu,
Ni byddwch feirw er ymddifyrru, ond chwi gewch felly fyw.
Pwy na chlywodd fynych lais a'i hudol gais in gofod,
I anghofio Duw a'i fanctaidd air, i'n dwyn i bair gwiberod?
O ymholwn rhag malais ac ymgais dyfais Diawl,
Pwy 'r ydym yn ei gredu, rhag colli yn Jefu 'n nawl.

VII.

Mae'n bryd deffro, i gyfon geifio,
Bawb o dywyllwch ein didwyllo, rhag etto drigo yn drift,
'Rol rhyfygu, mynych ganu,
Ac byth heb ochel para i bechu, heb union gredu i Grift,
Os felly a'n rhyfyg y parhawn, trwy ei air y llawn ddarllenwn,
Nid oes yfywaeth obaeth o Drugaredd ganddo o' ceifio yn,
Yn y diwedd, yn ein dialedd, fwy chwerwedd ef a chwardd.
Pan ddel cledi, i'n dihoeni, trueni tra anhardd.

VIII.

Yn awr yn anwyl, mae ei Efengyl,
Rhag cael ein fiommi yn galw'n fyml, pob un o'n treigl trowch;
Pob blinderog, eitha llwythog,
Fel yn eich henwi clywch eich annog, at Jefu dywyfog dowch,
Efe ydyw'r Meddig ddiddig da, i bob un cla cyfluddiol,
A ddel atto i gael lleshad, trwy fwriad editeiriol,
Ni wrthyd neb hefyd, a geifio fywyd fyth,
Li hyfrydwch yw'n fawdol, ein dwyn iw nefol nyth.

IX.

Er ei Gnawdoliaeth, mewn rhiwyddiaeth,
Aeth deunaw canmlwydd hylwydd helaeth o doraeth o fewn deg,
Cyfri cnawdol fy'n anfuddiol, ar ffaeithineb araeth ddynol,
D Dymunol forcunol freg;
Amgenach fyddai i bawb heb rus, pe medrem gofus gyfri
Er's pa fawl Blwyddyn yn ddi ddilit, yn ym Yng ialt o ddifti,
Duw a'n gwnelo 'n gynhalwyr, o dryfor llwyr di drift,
Sy'n ddiffawr na ddeifyad, mewn crefyad Amen Crift.

FIN.

BRITISH MUSEUM 15 66 MAR